OS OES GENNYCH UNRHYW YMHOLIADAU YNGHYLCH SUT Y DEFNYDDIR EICH DATA PERSONOL, CYSYLLTWCH Â NI AR DATA.PROTECTION@MERTHYR.GOV.UK NEU 01685 725000.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

TALIADAU TAI DEWISOL

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards

Tîm Llywodraethu Gweybodaeth

Lisa Richards Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop/Maria Litchfield

Swyddog Datgelu a Chofnodion Data

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
data.protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000

1. GWYBODAETH BWYSIG

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn cadw ac yn defnyddio data personol rydym yn ei gasglu. Mae'n ofynnol i ni o dan y ddeddfwriaeth diogelu data eich hysbysu o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Efallai y byddwn yn diweddaru'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn sicrhau bod copi wedi'i ddiweddaru o'r hysbysiad hwn ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd a'n hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ein prosesu data a gellir ei chyrchu ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybodaeth ar sut rydym yn defnyddio eich data personol i weinyddu'r taliadau tai dewisol sy'n cefnogi aelwydydd sy'n derbyn Budd-dal Tai neu Elfen Cost Tai Credyd Cynhwysol ac sydd â diffyg yn eu rhent sy'n anfforddiadwy. Bydd y Cyngor yn asesu ceisiadau ac yn cyhoeddi taliadau yn unol â'r canllawiau a nodir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

2. PWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr data, felly rydym yn gyfrifol am y data personol sydd gennym. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau, y gellir dod o hyd i'w manylion ar ein gwefan. Pan fyddwn yn sôn am yr Adran, rydym yn cyfeirio at yr Adran Budd-daliadau sy'n gyfrifol am brosesu eich data ar gyfer y gwasanaethau a nodir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i gleientiaid yr Adran sy'n cynnwys yr holl unigolion sy'n gwneud cais am y taliad tai dewisol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag ef gan ddefnyddio'r manylion ar frig yr hysbysiad hwn.

3. PA DDATA PERSONOL SY'N CAEL EI DDEFNYDDIO

Efallai y byddwn yn casglu, defnyddio, storio a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch fel a ganlyn:

- Disgrifyddion personol sy'n cynnwys eich enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, dyddiad geni
- Rhifau adnabod, gan gynnwys eich rhif yswiriant gwladol
- Gwybodaeth gredyd fel eich hanes credyd
- Data ariannol, fel eich manylion banc
- Data cyflogaeth, fel teitl eich swydd, hanes cyflogaeth, gall hyn hefyd gynnwys a ydych yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog
- Data geo-ofodol, fel eich cyfeiriad MAC neu gyfeiriad IP

Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio ac yn storio data demograffig sy'n darparu cyd-destun i'ch data personol, fel:

- Data ffordd o fyw, bydd y data hwn yn cynnwys eich statws priodasol a'ch statws ariannol.
- Data sy'n ymwneud â'ch bywyd teuluol fel nifer y bobl sy'n byw yn eich cartref, eich perthnasoedd, p'un a yw plant o oedran ysgol, p'un a yw eich plant yn hŷn ac yn y brifysgol neu nad ydynt bellach yn byw gartref.

Mae categorïau arbennig o ddata personol mwy sensitif sy'n gofyn am lefel uwch o ddiogelwch. Rydym yn casglu, yn storio ac yn defnyddio'r categorïau arbennig canlynol o ddata personol amdanoch chi:

- Tarddiad ethnig neu hiliol
- Data biometrig
- Iechyd gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol

4. SUT MAE EICH DATA PERSONOL YN CAEL EI GASGLU

Rydym yn casglu data personol amdanoch chi drwy ein ffurflen taliadau tai dewisol ar-lein.

Byddwn yn rhoi eich data personol i systemau cyfrifiadurol y Cyngor o'r enw Northgate. Mae eich data personol yn cael ei storio ar weinyddion cyfrifiaduron diogel y Cyngor a dim ond personél awdurdodedig sy'n gallu ei gyrchu. Mae'r holl bersonél sydd â mynediad at eich data personol yn cael hyfforddiant diogelu data a diogelwch gwybodaeth blynyddol.

Efallai y byddwn weithiau'n casglu data personol ychwanegol gan drydydd partïon, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Byddwn yn casglu data personol ychwanegol yn ystod swyddogaethau busnes y Cyngor a'r gwasanaethau a ddarparwn i chi drwy gydol eich cyswllt â ni. Am fwy o wybodaeth am sut mae eich data personol yn cael ei ddefnyddio mewn meysydd gwasanaeth eraill, ewch i'n tudalen we hysbysiad preifatrwydd.

5. SAIL GYFREITHIOL AR GYFER PROSESU

Byddwn ond yn defnyddio eich data personol pan fydd y ddeddfwriaeth diogelu data yn caniatáu i ni hefyd. Bydd y rhain yn cynnwys y darpariaethau a nodir o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a lle bo'n berthnasol i Ddeddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio eich data personol yn yr amgylchiadau canlynol:

Erthygl 6(1)(c) sy'n ymwneud â rhwymedigaeth gyfreithiol

Erthygl 6(1)(e) sy'n ymwneud â thasg gyhoeddus

6. RHANNU EICH DATA PERSONOL

Efallai y byddwn yn rhannu eich data personol ar draws yr Adran i roi'r cymorth sydd ei angen arnoch, byddwn hefyd yn rhannu eich data yn fewnol ag adrannau eraill sy'n cynnwys:

Archwiliad	-	Mewn achosion lle mae twyll budd-dal wedi ei ganfod bydd tîm Archwilio y Cyngor yn gyfrifol am ymchwilio i'r pryder.
Gwasanaethau Cyfreithiol	-	Os oes unrhyw faterion cyfreithiol yn codi o'ch cofnodion, byddwn yn cysylltu â'n Tîm Cyfreithiol yn unol â hynny.

Er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni'r gwasanaethau hyn, bydd gofyn i ni hefyd rannu eich data personol â sefydliadau allanol a fydd yn cynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor rannu'r wybodaeth hon gyda'r partïon a restrir uchod, gan nad yw'r rhannu yn cael ei ystyried yn ddatgeliad arferol nac yn drefniant gweithio ffurfiol, nid yw'n ofynnol i ni lunio cytundeb rhannu data ffurfiol.

Efallai y bydd adegau pan fydd yn rhaid i ni rannu eich data personol â Llywodraeth Cymru am resymau ystadegol a dadansoddi. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio data personol a ddelir gennym i reoleiddio sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau cyhoeddus. Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan Llywodraeth Cymru.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl a gallwch ddisgwyl lefel debyg o ddiogelwch mewn perthynas â'ch data personol.

7. PA MOR HIR RYDYM YN CADW EICH DATA PERSONOL

Byddwn ond yn cadw eich data personol cyhyd ag y bo angen i gyflawni'r dibenion y gwnaethom ei gasglu ar eu cyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifeg neu adrodd. Bydd y data personol a gesglir yn unol â'r prosesu a nodir yn yr hysbysiad hwn yn cael ei gadw am 6 mlynedd ar ôl i'r achos gael ei gau. Ar ôl y dyddiad hwn, bydd eich data personol yn cael ei ddinistrio'n ddiogel.

Mae manylion y cyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau ar eich data personol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk).

8. SUT RYDYM YN CADW EICH DATA PERSONOL YN DDIOGEL

Rydym wedi gweithredu mesurau diogelwch priodol i atal eich data personol rhag cael ei golli, ei ddefnyddio, ei gyrchu, ei newid neu ei ddatgelu yn ddamweiniol mewn ffordd anawdurdodedig. Rydym yn cyfyngu mynediad i'ch data personol i'r gweithwyr hynny sydd ag angen gwybod am fusnes. Bydd ein gweithwyr yn prosesu eich data personol yn unig ar ein cyfarwyddiadau, ac maent yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ddelio ag unrhyw amheuaeth o dorri diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reolydd perthnasol am doriad tybiedig lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny. Gallwch ddarganfod mwy am sut rydym yn cadw eich data

personol yn ddiogel drwy gysylltu â'n Swyddog Diogelwch Gwybodaeth ar information.security@merthyr.gov.uk.

9. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawliau o dan gyfraith diogelu data mewn perthynas â'ch data personol. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn y GDPR ac maent yn cynnwys:

- Yr hawl i Gywiro – mae gennych hawl i ofyn am gywiro eich gwybodaeth.
- Efallai y bydd yr hawl i gyfyngu ar brosesu yn berthnasol – gallwch ofyn i ni roi'r gorau i brosesu'ch data personol fodd bynnag, gallai hyn oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd gofyn i ni gadw neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i wrthwynebu – nid hawl absoliwt yw hon a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Yr hawl i beidio â bod yn destun penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.
- Yr hawl i gael mynediad – mae gennych hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch data personol. I wneud cais, cysylltwch â'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae'n bwysig bod y data personol sydd gennym amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os byddwch yn gwneud unrhyw newidiadau i'ch data personol fel y gallwn ddiweddaru ein cofnodion.

Os ydych am adolygu, gwirio, cywiro, gofyn am ddileu, gwrthwynebu neu ofyn i ni drosglwyddo copi o'ch data personol i barti arall, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir ar frig yr hysbysiad hwn.

10. RHAGOR O FANYLION

Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno ar unrhyw adeg i'n Swyddog Diogelu Data, y darperir ei fanylion cyswllt uchod, neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: wales@ico.org.uk

Ffôn: 0330 414 6421

Os ydych yn chwilio am fwy o wybodaeth am sut rydym yn prosesu eich data personol gan gynnwys diogelwch data, cadw data, hawliau unigol, ewch i'n polisi preifatrwydd llawn. Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol o wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, www.ico.org.uk.